

Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

13 Chwefror 2023

1. Cefndir

- Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022.
- Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") pan fydd Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:
 - at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol neu arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
 - sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn nodi y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno. Fodd bynnag, ni osodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil tan 28 Medi 2022.
- Ar 24 Mai, [ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd](#) i egluro ei bod wedi cymryd amser i lawn ystyried yr effeithiau y bydd yr hyn a gynigir yn y Bil yn eu cael ar ddatganoli, a hynny oherwydd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu fawr ddim cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Bil yn un cymhleth. Nododd nad oedd modd gosod y



Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o ganlyniad i hynny.

- 5.** Ar 4 Hydref cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (“y Pwyllgor”), y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i’w ystyried, gyda dyddiad cau o 8 Rhagfyr ar gyfer cyflwyno adroddiad.
- 6.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 27 Hydref a phenderfynwyd ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am ddau faes o fewn ein cylch gwaith. Cawsom ymateb ar 10 Tachwedd, yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch y trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â’r cymal ar grwydraeth a chardota ac ar oblygiadau ariannol y Bil. Roedd y llythyr hwn hefyd yn nodi bwriad i osod Memorandwm diwygiedig.
- 7.** Ar 22 Tachwedd cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 16 Chwefror 2023. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar 28 Tachwedd a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (“y Memorandwm Atodol”) ar 30 Tachwedd, gyda’r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 16 Chwefror.
- 8.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm a’r Memorandwm Atodol yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr.
- 9.** Roedd ein hystyriaeth o’r memoranda yn canolbwyntio ar y darpariaethau o fewn ein cylch gwaith yn unig, sef cymal 186 (Adolygiad o lywodraethu ac ati o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) a chymal 187 (Crwydraeth a chardota) o’r Bil fel y’i cyflwynwyd. Felly, nid ydym wedi ystyried a ddylai’r Senedd roi cydsyniad ar gyfer y cymalau eraill sydd wedi’u cynnwys yn y memoranda.

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

Y Memorandwm gwreiddiol

- 10.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm gwreiddiol yn ein cyfarfod ar 27 Hydref.
- 11.** Gwnaethom nodi bod cymal 186 o’r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae cymal 186 yn ymwneud ag adolygiad o lywodraethu ac ati o Sefydliad Brenhinol y

Syrfewyr Siartredig ("RICS"). Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn gorff proffesiynol ar gyfer syrfewyr sy'n gweithredu gyda Siarter Frenhinol. Bydd cymal 186 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o RICS.

12. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn nodi'r canlynol yn y Memorandwm:

*"Rwy'n cefnogi cynnwys cymal 186 gan ei fod o blaid gwella RICS, a fydd, yn ei dro, yn helpu i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae gan RICS aelodau ar draws y DU (ac yn rhyngwladol) ac rwy'n ystyried bod cynnwys y ddarpariaeth adolygu hon yn y Bil hwn yn briodol o ystyried cylch gwaith y sefydliad."*¹

13. Gwnaethom nodi bod cymal 187 o'r Bil, sy'n ymwneud â chrwydraeth a chardota, yn ddarpariaeth "cadw lle" felly nid oedd yn glir eto a oedd yn ddarpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 ai peidio. Nododd y Memorandwm fod eglurder yn cael ei geisio mewn perthynas â chymal 187 gan fod y tabl cymhwysio yn yr Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol yn nodi nad oedd yn gymwys o ran Cymru; fodd bynnag, nid yw'r cymal, fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, yn cyfyngu ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i Loegr yn unig.

14. Gwnaethom drafod na fyddem mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ynghylch cydsyniad deddfwriaethol hyd nes y byddai cymal 187 yn cael ei ddisodli gan ddarpariaeth o sylwedd ac y gellid rhoi eglurder ynghylch ei gymhwysio. Gwnaethom benderfynu ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 187.

15. Yn yr un llythyr, dyddiedig 1 Tachwedd, gofynnwyd i'r Gweinidog am ei barn ar oblygiadau ariannol y Bil i Gymru. Gwnaethom nodi bod y Memorandwm yn nodi'r canlynol:

*"Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd gan y Bil cyffredinol oblygiadau ariannol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, y llywodraeth ganolog a'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd cydbwysedd rhwng y costau hyn a'r arbedion effeithlonrwydd."*²

16. Fodd bynnag, nid oedd y Memorandwm yn cyfeirio o gwbl at safbwynt Llywodraeth Cymru ar y goblygiadau ariannol.

¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, 28 Medi 2022

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, 28 Medi 2022

17. Yn ei hymateb i'n llythyr, nododd y Gweinidog fod ei swyddogion wedi bod yn "mynd ati'n rhagweithiol ac yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i ddeall bwriadau Llywodraeth y DU" ar gyfer cymal 187.³

18. O ran goblygiadau ariannol cymal 186 yn ymwneud â RICS, mae ymateb y Gweinidog yn nodi "does dim costau i Gymru".⁴

19. Nododd y Gweinidog hefyd yn y llythyr ei bod yn bwriadu gosod Memorandwm diwygiedig.

Memorandwm Diwygiedig a Memorandwm Atodol

20. Gosodwyd y Memorandwm diwygiedig ar 28 Tachwedd, ac yna gosodwyd y Memorandwm Atodol ar 30 Tachwedd.

21. Trafodwyd y rhain yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr.

22. Yn y Memorandwm diwygiedig, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn ailddatgan ei chefnogaeth i gynnwys cymal 186 sy'n ymwneud ag adolygiad o lywodraethu ac ati o RICS yn y Bil.

23. Mae paragraffau 67 – 75 o'r Memorandwm diwygiedig yn nodi dadansoddiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol y Bil hwn i Gymru. Fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor, yn ôl y Memorandwm diwygiedig, "does dim costau i Gymru" o ganlyniad i'r cymal hwn.⁵

24. Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno sawl gwelliant i'r Bil i'w hystyried yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae dau o'r gwelliannau hyn gan Lywodraeth y DU yn arwain at hepgor cymal 187 (Crwydraeth a chardota) o'r Bil, a oedd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn yn golygu nad yw'r ddarpariaeth bellach yn sbarduno'r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.⁶

³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Tachwedd 2022, Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Papur 8

⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Tachwedd 2022, Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Papur 8

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, 25 Tachwedd 2022

⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm Rhif 2) Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, 30 Tachwedd 2022

3. Safbwynt y Pwyllgor

25. Yn dilyn y Memorandwm diwygiedig a'r Memorandwm Atodol, mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor yn teimlo y gallant argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i gymal 186 o'r Bil. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i wneud argymhelliad ar unrhyw un o'r darpariaethau eraill yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

26. Mae un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor, yn anghytuno â barn y mwyafrif, ac o'r farn na ddylid rhoi cydsyniad. Mae'r Aelod o'r farn bod y Bil yn cymryd pwerau oddi ar Gymru a bod yr amser byr a neilltuwyd i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol i wneud gwaith craffu ynghylch effaith y darpariaethau ar Gymru.